



Tasg Arbennig yr Haf - Haf o Hwyl



Eich Tasg Arbennig y tymor yma fydd cynllunio gweithgaredd Haf o Hwyl ar gyfer eich ysgol.



Pwrpas Haf o Hwyl yw **mwynhau**.




Gweithiwch gyda'ch athro i gynllunio eich gweithgaredd.



Wrth gynllunio'ch gweithgaredd byddwch chi'n meddwl am wahanol hawliau plant:




Erthygl 2 – Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn



Erthygl 12 – Mae gen i hawl i gael gwrandawriad, ac i gael fy nghymryd o ddifri



Erthygl 15 – Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau




Erthygl 29 – Mae gen i hawl i fod y gorau galla i fod



Erthygl 31 – Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae


Cynllunio eich gweithgaredd

1



Gwyliwch y fideo yma

2



Meddylwch

am

4



gweithgaredd




difyr

3



Gofynnwch



i bawb



yn yr ysgol




bleidleisio

4



Mwynhewch




eich



gweithgaredd



gyda'ch





ffrindiau




Dewisiadau gorau ein hysgol ni

Defnyddiwch y daflen yma i gadw cofnod o'r pleidleisiau o bob dosbarth.

 Gweithgaredd	123 Nifer y pleidleisiau 



Eich Gweithgaredd



Rydych chi wedi gwneud yr holl waith caled,
a chynllunio digwyddiad sy'n llawer o hwyl.
Rydyn ni'n gobeithio byddwch chi'n mwynhau.




Cofiwch


Rhannwch eich lluniau ar Twitter gan
ddefnyddio **#HafHwyl** fel ein bod ni'n gallu
gweld eich holl syniadau a gweithgareddau
difyr.




Gweithgaredd Ychwanegol



Llyfr Erthygl 31 Haf o Hwyl



Rydyn ni'n creu e-lyfr (llyfr gallwch chi edrych arno ar gyfrifiadur), i rannu rhai syniadau difyr ar gyfer gêmiau a gweithgareddau gallech chi chwarae yn ystod Gwyliau'r Haf.



Os hoffech chi gymryd rhan, gofynnwch i'r disgyblion yn eich ysgol chi lenwi'r daflen "Dwi'n hoffi chwarae" a'i hanfon yn ôl aton ni drwy e-bost: post@complantcymru.org.uk



Byddwn ni'n rhoi eich holl syniadau gyda'i gilydd mewn un llyfr.

